Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Warant i Bobl Ifanc

## Sgwrs Genedlaethol 2023-24



Diweddariad i Gyfranogwyr

## Diolch am gymryd rhan yn Sgwrs Genedlaethol y Warant i Bobl Ifanc.

Y Warant i Bobl Ifanc yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i helpu pawb dan 25 oed sy'n byw yng Nghymru i gael lle ar gwrs addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig.

PARAGRAPH MISSING



Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod y cyngor, y canllawiau, y cymorth a'r rhaglenni sydd ar gael i bobl ifanc yn cynnig y cyfleoedd gorau posibl iddynt lwyddo. Roeddem am glywed gan bobl ifanc o bob cwr o Gymru er mwyn deall yr hyn y gellir ei wneud yn well. Gall eich safbwyntiau gyfrannu at newidiadau i bolisïau sy'n bodoli eisoes a helpu i lunio rhai newydd.

## Pan wnaethoch gytuno i gymryd rhan yng ngrwpiau ffocws y Sgwrs Genedlaethol, gwnaethom ddweud wrthych y byddem yn gwneud y canlynol:

### Gwrando ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud.

Mae Llywodraeth Cymru am wella'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig fel bod pob person ifanc yn cael cyfle i lwyddo. Dim ond drwy wrando ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud y gallwn wneud hyn.

### Ystyried eich safbwyntiau.

Pan fydd yr wybodaeth o'r grwpiau ffocws parhaus wedi'i chasglu, caiff adroddiad ei lunio yn amlinellu'r hyn rydych wedi'i ddweud wrthym.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ystyried sut y gallwn wneud newidiadau i raglenni a gwasanaethau sy'n bodoli eisoes.

### Rhoi adborth i chi er mwyn dweud wrthych sut rydych wedi ein helpu i lunio darpariaeth newydd.

Pan fyddwn wedi ystyried pa newidiadau y gallem eu gwneud, byddwn yn ymgynghori â grwpiau o bobl ifanc er mwyn iddynt allu ein helpu i wneud yn siŵr bod y newidiadau hynny'n cael yr effaith fwyaf posibl.

## Beth sydd wedi digwydd hyd yma:

Cynhaliwyd cylch cyntaf y grwpiau ffocws gan Beaufort Research yn ystod haf 2022. Cynhaliwyd sgyrsiau ychwanegol gyda chyfranogwyr rhaglenni cyflogadwyedd a grwpiau ieuenctid eraill. Gwnaethom hefyd ofyn ein cwestiynau i bobl ifanc 16-24 oed ledled Cymru drwy arolwg ar-lein.

Defnyddiodd Golley Slater yr holl wybodaeth a gasglwyd drwy'r grwpiau a'r arolygon hyn i lunio adroddiad ymchwil Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol. Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a'i rannu'n eang gydag adrannau'r llywodraeth a rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn pobl ifanc, addysg, hyfforddiant a/neu gyflogaeth.





Yn dilyn cylch cyntaf y Sgwrs Genedlaethol, gwnaethom gyhoeddi diweddariad i'r cyfranogwyr ar y camau roeddem wedi'u cymryd hyd hynny i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ganddynt.

## Yr Ail a'r Trydydd Cylch

Ar gyfer ail a thrydydd cylch y grwpiau ffocws a'r arolygon, roeddem am dreiddio'n ddyfnach i rai o'r rhwystrau a nodwyd yn ystod y cylch cyntaf. Yn dilyn yr ail a'r trydydd cylch, lluniodd Golley Slater adroddiad yn seiliedig ar y canfyddiadau.

Bydd gweddill y ddogfen hon yn rhoi diweddariad i chi ar yr hyn rydym wedi ei wneud hyd yma mewn perthynas â phob un o'r materion penodol hyn. Bydd hefyd yn ymdrin â'r hyn rydym wedi'i wneud mewn perthynas â materion ehangach a godwyd a'r hyn y bwriadwn ei wneud yn y dyfodol.

- Profiad Gwaith
- Cludiant
- Iechyd Meddwl a Hyder
- Profiadau Pobl Ifanc Anabl
- Pontio
- Cyfathrebu

At hynny, er na wnaethom ofyn i bobl ifanc am eu profiadau o'r argyfwng costau byw yn benodol, bu'n thema sylfaenol ym mhob un o'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd. Mae rhai o'r rhwystrau yn ymwneud yn uniongyrchol â fforddiadwyedd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Amlinellir hefyd ymyriadau ychwanegol a ddarparwyd er mwyn helpu pobl ifanc yn ystod cyfnod hwn.

- Costau Byw



## Profiad Gwaith

Nododd llawer ohonoch ddiffyg profiad gwaith fel rhwystr i gael cyflogaeth. Mae sgyrsiau ein grwpiau ffocws yn dangos bod llawer ohonoch yn gweld gwerth profiad gwaith a'ch bod yn gallu adnabod llawer o fanteision cyfleoedd o'r fath. Fodd bynnag, roedd rhai ohonoch wedi ei chael hi'n anodd cael lleoliad neu nid oedd gennych yr hyder i wneud cais am un. Roedd dros draean ohonoch yn teimlo ei bod yn bwysig gallu cael profiad gwaith mewn maes sydd o ddiddordeb i chi. Awgrymodd rhai ohonoch y dylai dysgwyr gael cyfle i ddilyn cyrsiau sy'n gysylltiedig â sectorau a allai fod o ddiddordeb iddynt yn yr ysgol. Roeddech yn teimlo y byddai hyn yn eu galluogi i feithrin yr wybodaeth a'r sgiliau cywir i'w helpu gyda'u dewisiadau gyrfa.

**Ymateb:** Mae gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith bellach yn rhan orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru i blant a phobl ifanc 3-16 oed. Mae hyn yn rhoi pwyslais ar ysgolion cynradd yn ogystal ag ysgolion uwchradd. Mae hyn yn cynnwys cynnig cyfleoedd i ddysgwyr y gallant fanteisio'n weithredol arnynt. Byddant yn gallu achub ar gyfleoedd dysgu gwahanol fel chwarae rôl ac efelychu. Byddant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli, ymweliadau gwaith, lleoliadau gwaith a chysylltiadau ag ymwelwyr.
Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud newidiadau i'r cwricwlwm. Daw'r newidiadau i rym yn 2025. Mae canllawiau diwygiedig y cwricwlwm yn ymwneud â phrofiad dysgu pobl ifanc 14-16 oed. Bydd yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a phrofiadau i gefnogi llwybrau gyrfa dysgwyr.

**Ymateb:** Mae Gyrfa Cymru yn darparu lleoliadau profiad gwaith wedi'u teilwra i hyd at 500 o ddysgwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu mwy na £500,000 i Gyrfa Cymru at y diben hwn. Mae'r lleoliadau wedi'u hanelu at ddysgwyr Blwyddyn 11 sydd wedi ei chael hi'n anodd dychwelyd i addysg yn dilyn y pandemig. Fel rhan o'r prosiect, estynnwyd gwahoddiad i ysgolion o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol gymryd rhan. Yn ystod eu lleoliad, mae'r dysgwyr yn dysgu am y rhinweddau personol a'r cymwysterau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Mae cael eu gwerthfawrogi a'u canmol gan eu 'cyflogwr' yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a hunan-barch dysgwyr.

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau â'i Rhaglen Prentisiaethau Iau. Nod y rhaglen hon yw ymgysylltu â phobl ifanc (14-16 oed) sy'n wynebu risg o



ymddieithrio oddi wrth y system ysgolion. Darperir y rhaglen gan golegau mewn cydweithrediad agos ag ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae'r dysgwyr yn astudio ar gyfer cymhwyster lefel 2 drwy lwybr galwedigaethol o'u dewis. Cânt eu cefnogi hefyd i ennill TGAU Mathemateg a Saesneg neu Gymraeg (Iaith Gyntaf).

**Ymateb:** Ym mlwyddyn academaidd 2022/23, cafodd Rhaglen Gwella Lleoliadau ei threialu mewn colegau addysg bellach. O ganlyniad, gallai'r colegau ychwanegu lleoliad gwaith os nad oedd rhaglen eisoes yn cynnwys un. Helpodd y lleoliadau gwaith dysgwyr i feithrin sgiliau cyflogadwyedd, a gwnaethant hefyd godi eu dyheadau a chefnogi eu nodau gyrfa.  Mae'r rhaglen hon bellach wedi cael ei rhoi ar waith yn barhaus. Mae'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr Lefel 3 gael hyd at 100 awr o brofiad gwaith. Bydd y profiad gwaith yn berthnasol i'r cwrs y maent yn ei astudio. Gall fod ar gyfer rhaglenni academaidd a galwedigaethol mewn colegau addysg bellach. Argymhellodd yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol y dylid ymestyn cyfleoedd am leoliadau gwaith i bob dysgwr lefel 3 nad yw lleoliad gwaith yn rhan orfodol o'i gymhwyster. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn hyn a bydd yn gweithio tuag at gyflawni'r targed hwn.

**Ymateb:** Mae gan bob coleg addysg bellach yng Nghymru Fiwro Cyflogaeth a Menter erbyn hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £2 filiwn ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Bydd y Biwroau yn helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer gwaith drwy becyn o gyfleoedd. Bydd y cymorth hwn yn cynnwys cysylltu dysgwyr â chyflogwyr. Gallai hyn fod drwy bartneriaethau busnes ffurfiol, cyflwyniadau gan gyflogwyr a gweithgareddau ysbrydoledig gyda chyflogwyr. Gall y biwroau hefyd helpu dysgwyr i feithrin sgiliau cyflogadwyedd hanfodol. Gallant wneud hyn drwy gynnig cymorth gyda gweithgareddau fel sgiliau cyfweliad ac ysgrifennu CV. Gallant hefyd helpu i drefnu ymweliadau â diwydiant, profiad gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli. Mae'r Biwroau hefyd yn cynnal ffeiriau gyrfaoedd ac ymweliadau â cholegau a phrifysgolion. Mae'r cymorth ar gael i ddysgwyr llawn-amser a rhan-amser.

**Ymateb:** Mae Partneriaeth Addysg Busnes Gyrfa Cymru yn dod ag ysgolion a busnesau ynghyd. Y nod yw ysbrydoli, cymell a meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'u cyfleoedd gyrfa. Mae'r cyfleoedd hyn yn galluogi cyflogwyr i ysbrydoli dysgwyr a rhoi cipolwg go iawn iddynt ar fyd gwaith. Mae'n galluogi dysgwyr a'u hathrawon i gwrdd â chyflogwyr o amrywiaeth eang o sectorau. Mewn llawer o achosion, bydd eu rhieni, eu gwarcheidwad a/neu eu gofalwyr hefyd yn gallu cymryd rhan.

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu astudiaeth ar leoliadau gwaith. Mae'n rhan o drefniadau'r cwricwlwm newydd yng Nghymru. Nod yr astudiaeth yw dysgu am brofiadau dysgwyr mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig o leoliadau gwaith. Bydd hefyd yn datblygu canllawiau i ddysgwyr, ysgolion a chyflogwyr.

## Trafnidiaeth

Dywedodd llawer ohonoch wrthym am eich profiadau o faterion yn ymwneud â thrafnidiaeth. Dyma'r prif beth a oedd yn rhwystro llawer ohonoch rhag cael yr addysg, y gyflogaeth neu'r hyfforddiant roeddech yn dymuno ei chael/gael. Roedd y materion yn cynnwys annibynadwyedd, amserlenni byr a fforddiadwyedd. Roedd diffyg trafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, hefyd yn effeithio ar rai ohonoch. Dywedodd rhai ohonoch fod angen gwella hygyrchedd trafnidiaeth. Hefyd, awgrymwyd bod angen mwy o gymorth i wella hyder mewn trafnidiaeth gyhoeddus. Gallai hyn gynnwys help i ddeall amserlenni. Teimlai'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws fod cymorth ariannol drwy FyNgherdynTeithio yn ddefnyddiol. Roeddech hefyd yn teimlo bod trafnidiaeth am ddim neu wedi'i sybsideiddio gan golegau addysg bellach a phrifysgolion yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, roedd llai na hanner y bobl ifanc yn ymwybodol o'r cynlluniau hyn cyn cymryd rhan yn y grwpiau ffocws.







**Ymateb:** Mae Trafnidiaeth Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, bellach yn cynnig amrywiaeth o gonsesiynau teithio i bobl ifanc, gan gynnwys:

**Cerdyn Rheilffordd Myfyrwyr Trafnidiaeth Cymru**
- Rhaid bod mewn addysg lawn-amser neu ran-amser.
- Ffi flynyddol o £21.
- 34% oddi ar Docynnau Dosbarth Safonol a 10% oddi ar Docynnau Tymor Dosbarth Safonol.
- Yn gymwys ar Wasanaethau Trên Trafnidiaeth Cymru yn unig.
- Gwybodaeth bellach: Tocynnau Rheilffordd | Cardiau rheilffordd a gostyngiadau | Trafnidiaeth Cymru (tfw.wales)

**Fy Ngherdyn Teithio**
- 16-21 oed
- Gwneud cais am ddim.
- 1/3 oddi ar bob taith bws yng Nghymru.
- Gwybodaeth bellach: Hafan ♥ FyNgherdynTeithio | Llywodraeth Cymru

**Ymateb:** Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn hyrwyddo ac yn derbyn Cerdyn Rheilffordd 16-25 y DU:
- Ffi flynyddol o £30.
- 1/3 oddi ar docynnau trên ledled y DU.
- Gwybodaeth bellach: Cerdyn Rheilffordd 16-25 | £30 Yn Unig

**Ymateb:** Mae tri phrosiect Metro yn mynd rhagddynt ledled Cymru. Yr uchelgais yw cynnig rhwydweithiau bysiau, trenau a theithio llesol cynaliadwy modern. Y nod yw teithiau cyflymach, cysylltiadau gwell rhwng mathau gwahanol o drafnidiaeth, mwy o gapasiti, gwasanaethau hygyrch, dibynadwy ac amlach a theithio fforddiadwy â system docynnu glyfar:

- Metro De Cymru: [Prosiect Metro De Cymru | Trafnidiaeth Cymru (tfw.wales)]
- Metro Gogledd Cymru: [Trawsnewid trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru | Trafnidiaeth Cymru]
- Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru: [Metro Bae Abertawe | Trafnidiaeth Cymru]

**Ymateb:** Mae tocynwyr newydd yn cael hyfforddiant ar Hygyrchedd a Chynhwysiant fel rhan o'u rhaglen hyfforddiant i newydd-ddyfodiaid ac mae tocynwyr presennol y cael hyfforddiant diweddaru. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys sut i asesu anghenion unigol a darparu cymorth priodol ar gyfer amhariadau corfforol ac anghorfforol.

**Ymateb:** Mae Trafnidiaeth Cymru yn parhau i gyflwyno cynlluniau newydd pellach ar gyfer teithio annibynnol er mwyn helpu ein cwsmeriaid ag anghenion ychwanegol i deithio'n gyfforddus, yn ddiogel ac mor annibynnol â phosibl.

**Ymateb:** Mae'r dysgwyr sy'n rhan o raglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn parhau i gael cymorth ariannol. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys Twf Swyddi Cymru+, ReAct+ a Cymunedau am Waith a Mwy. Gall dysgwyr sy'n rhan o Twf Swyddi Cymru+ barhau i hawlio 100% o'u costau teithio. At hynny, mae'r lwfans hyfforddi wedi cael ei ddyblu i £60 yr wythnos. Gall dysgwyr ar ReAct+ hawlio hyd at £300 o gymorth ychwanegol tuag at gostau ychwanegol wrth hyfforddi, gan gynnwys teithio. Mae rhai dysgwyr sy'n rhan o Cymunedau am Waith a Mwy yn gymwys i gael cymorth drwy'r gronfa rhwystrau. Diben y cyllid hwn yw helpu i dalu costau teithio wrth ymgymryd â hyfforddiant. At hynny, mae rhai colegau addysg bellach yn darparu trafnidiaeth am ddim neu wedi'i sybsideiddio.

**Ymateb:** Mae Trafnidiaeth Cymru wedi llunio nifer o adnoddau sydd â'r nod o wneud trafnidiaeth yn fwy hygyrch i bawb. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod darparwyr ein rhaglenni yn gwbl ymwybodol o'r adnoddau hyn. Bydd hyn yn sicrhau y gallant gynnig cymorth gwell i'w dysgwyr gydag unrhyw ofynion hygyrchedd.





**Ymateb:** Ein nod yw codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys cymorth ariannol. Ein nod yw sicrhau bod pobl ifanc, a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw, yn ymwybodol o'r help sydd ar gael a'u bod yn cael y cymorth y mae ganddynt yr hawl i'w gael.

Rydym yn cynyddu'r cyfathrebu drwy'r cyfleoedd a roddir. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, y Bwrdd Cynghori ar y Warant i Bobl Ifanc, a Biwroau Cyflogaeth a Menter mewn colegau addysg bellach.

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth er mwyn rhoi mwy o lais i bobl o bob oed ar ddyluniad a darpariaeth y gwasanaethau bysiau sydd eu hangen arnynt. Bydd hyn yn cynnwys llwybrau sydd eu hangen ar bobl ar gyfer gwaith a hamdden. Ymateb: Cyfarfu ein Bwrdd Cynghori ar y Warant i Bobl Ifanc â chynrychiolwyr o Trafnidiaeth Cymru i drafod y materion a godwyd, ac mae Trafnidiaeth Cymru wedi cytuno i ystyried yr adborth ac ymateb iddo. Byddwn yn rhoi diweddariad pellach dros y misoedd nesaf, ac yn parhau i weithio gyda phobl ifanc i ystyried atebion i faterion yn ymwneud â thrafnidiaeth.

## Iechyd Meddwl a Diffyg Hyder

I rai pobl ifanc, gwelsom fod iechyd meddwl yn gallu eich rhwystro rhag cael yr addysg, y gyflogaeth neu'r hyfforddiant rydych yn dymuno ei chael/gael. Gall iechyd meddwl gwael effeithio ar bobl mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Rhai o'r rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd gennych oedd pryder am gwrdd â phobl newydd ac anhawster canolbwyntio a chynnal cymhelliant, ac roedd rhai ohonoch yn poeni y bydd eich iechyd meddwl yn eich atal rhag llwyddo. Roedd rhai ohonoch hefyd yn poeni efallai na fydd cyflogwr neu ddarparwr addysg yn eich deall, neu y byddant yn eich beirniadu.

Gwnaethoch awgrymu y byddech yn teimlo'n fwy hyderus pe baech yn gwybod ble i fynd i gael help a chyngor. Byddai cael rhywun dibynadwy i droi ato hefyd yn ddefnyddiol. Gwnaethoch hefyd awgrymu y byddai cael help i gwrdd â phobl newydd, ysgrifennu CV a deall cymwysterau hefyd yn helpu i wella hyder.

Roedd y rhan fwyaf ohonoch yn gadarnhaol am y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd rhai yn teimlo bod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r cymorth sydd ar gael.

**Ymateb:** Mae gan Lywodraeth Cymru ganllawiau cyfreithiol, sef Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion roi cymorth ar waith i ddiwallu anghenion llesiant plant a phobl ifanc. Mae ein cyllideb ddrafft yn cynnwys £13.6m yn 2024-25 i gefnogi ysgolion i roi'r fframwaith ar waith. Yn ystod blynyddoedd blaenorol, defnyddiwyd y cyllid i wneud y canlynol:

- Ehangu a gwella gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion.
- Darparu ymyriadau llesiant ar gyfer yr ysgol gyfan neu ddisgyblion unigol.
- Hyfforddi athrawon ac aelodau eraill o staff ysgolion ar lesiant.
- Helpu byrddau iechyd i gyflwyno rhaglen mewngymorth i ysgolion CAMHS ledled Cymru. Mae hyn yn golygu bod modd darparu ymarferwyr iechyd meddwl penodedig mewn ysgolion. Gallant ddarparu ymgynghoriadau, cyswllt, cyngor a hyfforddiant.

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Ymgyrch Lefel Nesa i gefnogi dysgwyr sy'n dioddef o straen neu orbryder oherwydd gwaith ysgol neu arholiadau. Mae'r ymgyrch yn cynnig cyngor ar gymorth llesiant yn ogystal â darparu cymorth ymarferol ar sefyll arholiadau.

**Ymateb:** Mae Cymwysterau Cymru yn diwygio pob cymhwyster i ddisgyblion 14-16 oed yng Nghymru i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Un o egwyddorion arweiniol y gwaith hwn fu cefnogi iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol. O 2025, ni fydd rhagor o asesiadau diarholiad ar lefel TGAU.



**Ymateb:** Mae pob coleg addysg bellach wedi datblygu strategaethau llesiant, sy'n helpu i gefnogi iechyd meddwl a llesiant staff a dysgwyr. Mae'r strategaethau hyn yn parhau i gael eu rhoi ar waith. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24, mae buddsoddiad ychwanegol o £4m wedi cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i golegau addysg bellach. Bydd y cyllid yn eu galluogi i barhau i ganolbwyntio ar faint timau llesiant/lles. Bydd hyn yn eu helpu i ymateb i niferoedd cynyddol o atgyfeiriadau.

Mae colegau addysg bellach unigol yn darparu cymorth llesiant ac iechyd meddwl i'w dysgwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys gwasanaethau cwnsela a chymorth ar-lein. Mae hefyd yn cynnwys hyfforddiant ar wydnwch, rhaglenni tiwtora, cymorth pontio a diwrnodau llesiant.

Mae'r cyllid hefyd yn cefnogi swyddi penodedig i arwain mentrau llesiant. Mae hefyd yn golygu bod modd cynnal prosiectau ac ymchwil er budd dysgwyr. Mae rhai o'r prosiectau sydd eisoes wedi'u cynnal wedi datblygu adnoddau defnyddiol. Mae'r adnoddau hyn ar gael ar Hwb.

Mae Llywodraeth Cymru am barhau i gryfhau'r cymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant dysgwyr mewn addysg bellach. Mae prosiectau cenedlaethol yn 2023/24 yn cynnwys datblygu adnoddau a hyfforddiant ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Bydd hyn yn helpu sefydliadau i fabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma. Eir ati hefyd i ymchwilio a datblygu adnoddau i gefnogi iechyd meddwl a llesiant gofalwyr ifanc mewn addysg bellach.

**Ymateb:** Mae'r Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl sydd ar gael drwy Hwb, yn parhau i gysylltu pobl ifanc â gwefannau, apiau, llinellau cymorth, a mwy. Mae'r pecyn cymorth yn cynnig cymorth gyda gorbryder, hwyliau isel, cadw'n iach, profedigaeth, cymorth mewn argyfwng, a mwy.

**Ymateb:** Mae rhaglen Twf Swyddi Cymru+ yn parhau i gynnig gweithgareddau cyfoethogi i ddysgwyr. Mae'r rhain ar gael i ddysgwyr y mae angen cymorth arnynt gyda'u llesiant. Gallant hefyd eu helpu i ddal ati gyda'u rhaglen pan fyddant yn wynebu risg o roi'r gorau iddi. Mae rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy yn parhau i gynnig mentoriaid i ddysgwyr. Mae'r mentoriaid yn darparu cymorth un i un wedi'i deilwra'n bwrpasol i unigolion a chyrsiau ennyn hyder.

**Ymateb:** Yng Nghaerfyrddin, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi sefydlu cyfleuster Hwb Argyfwng 24/7. Mae'r gwasanaeth Noddfa Plant a Phobl Ifanc yn cynnig cymorth iechyd meddwl wedi'i deilwra. Mae'n cynnig cymorth yn yr amgylchedd cywir, ar yr adeg pan fo angen y cymorth hwnnw ar blant a phobl ifanc fwyaf.





**Ymateb:** Mae Cymru Iach ar Waith yn rhaglen genedlaethol. Mae'n helpu cyflogwyr i greu amgylcheddau gwaith a gweithleoedd iachach, er budd eu cyflogeion a'r gymuned ehangach. Mae'r rhaglen wedi bod yn symud tuag at ddarpariaeth hyblyg fwy digidol. Mae'r ffocws ar gynnig darpariaeth rithwir a fydd yn helpu cyflogwyr i fesur eu strategaethau ar gyfer iechyd a llesiant eu cyflogeion a'u gwella. Mae hyn yn cynnwys strategaethau ar gyfer pobl ifanc. Bydd Cymru Iach ar Waith yn gweithio gyda Busnes Cymru i hyrwyddo ei wasanaethau cymorth busnes ymhellach. Bydd hefyd yn cysoni â darpariaeth ein Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith i ddarparu cymorth iechyd galwedigaethol. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhaglen yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl.

**Ymateb:** Bydd y [Gwasanaeth Di-waith] yn cael ei ymestyn tan 2025. Mae'r Gwasanaeth Di-waith yn helpu'r rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd bellaf oddi wrth gyflogaeth. Mae'n cynnig cymorth gan fentoriaid i bobl sy'n adfer o broblemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau.

**Ymateb:** Dechreuodd [Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith] Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2023. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ffisiotherapi, seicotherapi a therapi galwedigaethol am ddim. Fe'i hanelir at bobl â chyflyrau iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Mae'n chwarae rôl hanfodol i helpu pobl i gadw swyddi drwy geisio atal absenoldebau o'r gwaith o ganlyniad i gyflyrau iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Mae hefyd yn helpu'r rheini sy'n absennol o'r gwaith oherwydd salwch i ddychwelyd yn gynt.



## Profiadau Pobl Ifanc Anabl

Mae pobl ifanc anabl yn wynebu llawer o'r un heriau â phobl ifanc nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag, gall yr effaith fod yn anghymesur. Nododd 92% o'r bobl ifanc anabl a gymerodd ran ddiffyg hyder, sef y gyfran uchaf o'r rhai a gymerodd ran. Mae trafnidiaeth hefyd yn cyflwyno heriau ychwanegol i lawer ohonoch.

Roedd mwy o bobl ifanc anabl wedi cael profiad gwaith na phobl ifanc nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag, roeddech yn fwy tebygol o fynegi anfodlonrwydd ar y profiad cyffredinol. Dywedodd rhai ohonoch fod angen mwy o gyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc anabl. Teimlai rhai y gallent gael budd o gyngor ar ddod o hyd i waith sy'n addas i bobl ag anghenion ychwanegol. Cydnabuwyd bod llwybrau yn broblem i bobl ifanc anabl a phobl ifanc nad ydynt yn anabl. Teimlai pobl y byddai'n fuddiol i ysgolion roi mwy o gydnabyddiaeth i lwybrau pobl ifanc anabl. At hynny, dylai rhieni fod mewn sefyllfa well i gefnogi disgwyliadau eu plant o ran cyflogaeth, gan ei bod yn gyfle dilys.

Awgrymodd y rhai a gymerodd ran ei bod yn hanfodol bod dysgwyr anabl yn cael gwybodaeth glir am sefydliadau arbenigol sy'n cynnig lleoliadau â chymorth i'w paratoi at waith.

**Ymateb:** Un o'r ymrwymiadau allweddol a nodir yng Nghynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yw cynyddu nifer y cyflogwyr sy'n creu gweithleoedd cynhwysol a chefnogol i bobl anabl a'r rheini â chyflyrau iechyd hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflogi rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cyflogaeth i Bobl Anabl. Cânt eu cefnogi gan Gynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Busnes Cymru i ddarparu cyngor, gwybodaeth a chymorth i gyflogwyr ledled Cymru. Mae hwn yn wasanaeth am ddim sydd ar gael i gyflogwyr yng Nghymru beth bynnag fo'u maint.

**Ymateb:** Mae'r Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith yn cynnig mynediad cyflym at wasanaethau therapi galwedigaethol, ffisiotherapi a therapi seicolegol. Mae'r gwasanaethau wedi'u dylunio i helpu pobl gyflogedig neu hunangyflogedig i ddychwelyd i'r gwaith neu reoli cyflwr iechyd yn y gwaith. Gall hyn fod yn broblem iechyd meddwl neu'n broblem gyhyrysgerbydol. Mae rhaglen hyfforddi ar gael er mwyn helpu cyflogwyr i adnabod anghenion llesiant y gweithlu. Mae hefyd yn eu helpu i roi rhaglen





bwrpasol o fesurau ar waith sydd â'r nod o wella llesiant yn y gwaith. Mae hyn yn cynnwys gweithdai hyfforddi a thriniaethau llesiant. Mae'r rhaglen hon wedi cael ei hymestyn tan 2025.

**Ymateb:** Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos bod 24% o'r bobl ifanc sy'n rhan o raglen Twf Swyddi Cymru+ yn ystyried eu hunain yn anabl a/neu fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth wedi bod yn treialu darpariaeth Anogwyr Cyflogaeth Gefnogol. Mae'r anogwyr hyn ar gael i ymuno â dysgwyr ar leoliadau gwaith neu gynnig cymorth un i un i feithrin sgiliau byw'n annibynnol. Yn dilyn y treial, mae Anogwyr Cyflogaeth Gefnogol bellach ar gael fel rhan o'r rhaglen. Mae cyllid penodol hefyd ar gael i'r rheini ag anghenion ychwanegol.

**Ymateb:** Mae rhaglen ReAct+ Llywodraeth Cymru yn cynnig pecyn o gymorth er mwyn helpu pobl ddi-waith i ddychwelyd i weithio. Mae'r rhaglen yn cynnig hyd at £3,000 i gyflogwyr ar gyfer y 12 mis cyntaf er mwyn helpu i dalu eu cyflog. Gall hefyd dalu hyd at £1,000 ar gyfer unrhyw hyfforddiant sydd ei angen i feithrin eu sgiliau ar gyfer y swydd. Os bydd cyflogwr yn recriwtio person anabl 18-24 oed, mae £2,000 ychwanegol ar gael.

**Ymateb:** Mae rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy Llywodraeth Cymru hefyd wedi gwneud cynnydd mawr wrth gefnogi cyfranogwyr sy'n ystyried eu hunain yn anabl neu fod ganddynt gyflyrau iechyd hirdymor. Mae hyn yn cyfrif am 24.3% o'r rheini a gefnogir. Mae'n cynnwys cymorth mentora un i un dwys i gyfranogwyr. Ceir hefyd 'gronfa rhwystrau' er mwyn helpu i dalu costau trafnidiaeth, ardystio, dillad ar gyfer cyfweliad, a llawer mwy.

**Ymateb:** Bydd yr astudiaeth ar leoliadau gwaith fel rhan o drefniadau'r cwricwlwm newydd yng Nghymru yn cynnwys ysgolion arbennig. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc anabl yn cael eu hystyried mewn unrhyw ganllawiau a ddatblygir.

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Rhwydwaith Sgiliau Byw'n Annibynnol. Mae wedi datblygu Cwricwlwm Sgiliau Byw'n Annibynnol Pedair Colofn. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys dysgu heb ei achredu yn bennaf. Mae'r dysgwyr yn gweithio i gyflawni targedau unigol. Mae hyn yn galluogi'r dysgwyr i ganolbwyntio ar adnabod a chofnodi cynnydd a chyflawniad yn hytrach na chanolbwyntio ar ddysgu achrededig. Y pedair colofn graidd yw Iechyd a Llesiant, Cyflogadwyedd, Byw'n Annibynnol a Chynhwysiant Cymunedol. Mae'r Rhwydwaith Sgiliau Byw'n

Annibynnol yn parhau i gydweithio i ddatblygu a rhannu arferion ac adnoddau effeithiol. Mae'n adolygu ac yn diweddaru'r cwricwlwm yn barhaus er mwyn sicrhau bod pobl ifanc mewn colegau addysg bellach yng Nghymru yn cael y profiad gorau posibl.

Weithiau, cyfeirir at Lwybr 4 Sgiliau Byw'n Annibynnol fel 'Interniaethau â Chymorth'. Nod y rhaglen yw paratoi pobl ifanc ag anawsterau/anableddau dysgu ar gyfer gwaith â thâl drwy wneud y canlynol:

- Eu helpu i feithrin sgiliau a werthfawrogir gan gyflogwyr
- Eu galluogi i ddangos eu gwerth yn y gweithle
- Meithrin eu hyder yn eu galluoedd eu hunain i lwyddo yn y gwaith

Caiff hyn ei gyflawni drwy gyfuno dysgu seiliedig ar waith â rhaglen astudio wedi'i phersonoli. Ychydig iawn o amser y bydd dysgwyr Llwybr 4 yn ei dreulio yn y coleg. Mae'r rhaglen yn cydnabod pwysigrwydd sefydlu ac atgyfnerthu arferion newydd o ran teithio i'r gwaith ac oddi yno yn rheolaidd. Mae hefyd y canolbwyntio ar feithrin sgiliau yn y gwaith.





Caiff y dysgwyr hefyd eu cefnogi gan eu tiwtoriaid a'u hyfforddwyr swyddi i gael lleoliadau gwaith llwyddiannus a pharhaus. Maent hefyd yn sicrhau llesiant a diogelwch y dysgwyr. Mae'r cymorth yn y gwaith yn helpu'r dysgwyr i ddatblygu strategaethau i'w alluogi i fod yn annibynnol yn y gweithle. Mae'r hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn ategu'r dysgu yn y gwaith ac yn galluogi'r dysgwyr i gael cymorth a chyngor gan ei gilydd. Mae hyn yn helpu i'w hatal rhag teimlo'n ynysig yn eu gweithleoedd eu hunain. Fel arfer, bydd dysgwyr ar Lwybr 4 rhwng 16 a 25 oed, a byddant wedi cael diagnosis o anabledd/anhawster dysgu a/neu awtistiaeth.



**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £18.4 miliwn er mwyn galluogi sefydliadau addysg bellach i roi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith. Bydd hyn yn darparu'r cymorth sydd ei angen ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i lwyddo yn eu hastudiaethau. Bydd hefyd yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff ddatblygu darpariaeth i ddysgwyr ag anghenion cymhleth. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod cynifer o bobl ifanc â phosibl yn gallu cael addysg bellach. Dylent allu cael addysg heb orfod gadael eu hardal leol. Mewn achosion prin, ni all gwasanaethau prif ffrwd lleol ddiwallu anghenion cymhleth person ifanc. Byddwn wedyn yn trefnu lle iddo mewn ysgolion addysg bellach arbenigol annibynnol.

**Ymateb:** Er mwyn annog mwy o bobl anabl i ddilyn prentisiaethau, rydym yn parhau i flaenoriaethu Prentisiaethau Cynhwysol: Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau, a'i roi ar waith. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cyflogaeth i Bobl Anabl. Rydym hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol a chyflogwyr i ddileu'r rhwystrau i brentisiaethau a wynebir gan bobl ifanc.

Mae Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr ar waith sy'n cynnig £2,000 i gyflogwyr i'w hannog i recriwtio pobl anabl.

Mae Prentisiaethau a Rennir â Chymorth wedi'u hanelu at bobl ifanc ag amrywiaeth eang o anghenion dysgu a chyflogaeth. Bydd hyfforddwr swyddi yn cynnig cymorth dwys i'r dysgwyr gwblhau prentisiaeth. Mae prentisiaethau â chymorth yn helpu dysgwyr i bontio i brentisiaethau, cyn camu ymlaen i swyddi cynaliadwy â hyfforddiant. Mae'r cynllun yn cefnogi oedolion sydd wedi cwblhau interniaethau â chymorth ac sy'n gadael colegau addysg bellach.

Rhaid i gyflogwyr wneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod prentisiaid anabl yn cael cymorth sydd wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion.

**Ymateb:** Mae gan Gyrfa Cymru adran benodol i bobl ifanc anabl ar ei gwefan, sef 'Fy Nyfodol'. Mae'r adnoddau yn helpu pobl ifanc i feddwl am yr hyn yr hoffent ei wneud yn y dyfodol. Mae'n eu helpu i ystyried eu diddordebau ac i ddeall y sgiliau sydd ganddynt. Gall pobl ifanc wylio fideo o Gynghorydd Gyrfaoedd yn siarad am yr opsiynau gwahanol sydd ar gael iddynt pan fyddant yn 16 oed.

## Pontio/Llwybrau

Roedd rhai ohonoch yn teimlo nad yw pobl ifanc yn cael cymorth cyson wrth adael yr ysgol a dechrau astudio yn y coleg neu weithio. Roedd rhai o'r farn nad oedd llwybr cam wrth gam clir. Roedd rhai yn ansicr ble i droi am help ar gamau diweddarach eu llwybr. Roedd hyn yn cynnwys sefyllfaoedd annisgwyl fel rhoi'r gorau i addysg neu golli swydd. Cafwyd ceisiadau am wybodaeth fwy cynhwysol am y cymwysterau gwahanol a'r hyn y gallent ei alluogi, ni waeth beth fo gallu unigolyn. Teimlai rhai pobl ifanc y byddent yn cael budd o gymorth wedi'i deilwra'n fwy at eu hanghenion unigol yn yr ysgol.

Roeddem am wybod mwy am ble roeddech yn ceisio cyngor ac arweiniad. Athrawon ysgol a nodwyd fel y ffigyrau mwyaf dylanwadol (40%), a rhieni/gofalwyr (30%) a chynghorwyr gyrfaoedd (24%) wedi hynny. Er mai athrawon oedd fwyaf dylanwadol, teimlai llawer o bobl ifanc fod ysgolion yn canolbwyntio'n bennaf ar safon uwch, a'u bod yn rhoi llai o sylw i opsiynau galwedigaethol.

Pan ofynnwyd beth allai hwyluso'r cyfnod pontio, elfen sylfaenol a nodwyd oedd cynnig profiad gwaith perthnasol neu opsiynau rhagflas. Teimlai llawer o'r cyfranogwyr y byddai hyn yn fuddiol iawn.
Ymateb: Mae Gyrfa Cymru yn gweithio mewn ysgolion a cholegau i helpu pobl ifanc i gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd yn fwy effeithiol.

Maent yn helpu dysgwyr ym mlynyddoedd 7 i 9 i ddeall sut y gall eu dewisiadau effeithio ar eu syniadau o ran gyrfa yn y dyfodol.





Maent yn defnyddio adnoddau fel cwisiau ar-lein a sesiynau rhyngweithiol.

Ym mlwyddyn 10 a blwyddyn 11, anogir dysgwyr i ddysgu mwy am eu hopsiynau gyrfa a sut i gymryd y camau nesaf.

Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel cyfweliadau ar gyfer gyrfaoedd a sesiynau grŵp.  Mae'r sesiynau grŵp yn canolbwyntio ar ddysgu am bethau fel argaeledd swyddi mewn maes penodol. Maent hefyd yn dysgu am yr holl opsiynau sydd ar gael ar ôl gadael yr ysgol (opsiynau ôl-16).

Mae myfyrwyr chweched dosbarth yn cael cymorth i ddeall eu hopsiynau ar ôl gadael y chweched dosbarth (opsiynau ôl-18).

Mae Gyrfa Cymru hefyd yn gweithio i gefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) drwy gynnal asesiadau ar gyfer y rheini sy'n gadael yr ysgol fel rhan o'r broses bontio. Yn 2022/23, cynhaliwyd 4,068 o gyfweliadau gyda 2,690 o bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Cynhaliwyd hefyd 2,820 o gyfweliadau pontio a 466 o adolygiadau o gynlluniau dysgu a sgiliau.

Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cynnal digwyddiadau a gweithgareddau marchnata a chyfathrebu effeithiol drwy'r flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys Wythnos Genedlaethol Gyrfaoedd ac ymgyrch opsiynau Blwyddyn 8/9. Mae hefyd yn cynnal ymgyrch 'Symud Ymlaen, Symud i Fyny', sy'n helpu pobl ifanc yn y chweched dosbarth neu'r coleg i benderfynu ar eu camau nesaf.

**Ymateb:** Ym mlwyddyn academaidd 2022/23, cafodd colegau addysg bellach a chweched dosbarth awdurdodau lleol £3 miliwn o gyllid pontio. Diben y cyllid oedd rhoi'r cyfle i ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 ymweld â choleg addysg bellach. Lle y bo'n bosibl, cymerodd dysgwyr ran men gweithgareddau pontio perthnasol. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys diwrnodau rhagflas mewn colegau, dosbarthiadau meistr, gweithdai rhyngweithiol a rhaglenni dros yr haf.
Yn y flwyddyn academaidd bresennol (2023/24), mae £3m ychwanegol o gyllid pontio ar gael. Bydd y cyllid hwn yn parhau i helpu dysgwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 i gymryd y cam nesaf ar eu taith addysg neu hyfforddiant.

**Ymateb:** Ym mlwyddyn academaidd 2022/23, treialwyd Rhaglen Dyfodol Llwyddiannus mewn colegau addysg bellach. Mae'r rhaglen hon yn galluogi dysgwyr i gael profiad o amrywiaeth o feysydd galwedigaethol. Mae'n rhoi mwy o sylw i lwybrau cynnydd gwahanol. Ar gyfer y flwyddyn academaidd hon (2023/24), mae'r rhaglen hon wedi cael ei phrif ffrydio. Mae'n helpu dysgwyr Lefel 1 sy'n wynebu risg o ddod yn NEET. Mae'n rhoi'r cyfle i feithrin gwydnwch a sgiliau cyflogadwyedd a datblygu strategaethau llesiant. Mae'n rhaglen ddwys o diwtorialau a chymorth.

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau parch cydradd rhwng cymwysterau galwedigaethol ac academaidd. Mae hyn yn golygu rhoi'r un gwerth i lwybrau addysg a llwybrau galwedigaethol.
Bydd Cymwysterau Cymru yn cyflwyno Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 newydd, i'w rhoi ar waith erbyn mis Medi 2027.

Bydd hyn yn cynnwys cymwysterau o lefel mynediad i lefel 2, mewn amrywiaeth o bynciau. Bydd ysgolion yn gallu cynnig y mathau canlynol o gymwysterau i ddysgwyr:

- TGAU Gwneud-i-Gymru
- Tystysgrifau Galwedigaethol Addysg Uwchradd)
- Cymwysterau sylfaen
- Cyfres Sgiliau – gyda chymwysterau mewn Sgiliau Gwaith, Sgiliau Bywyd a Phrosiect Personol

Bydd y cymwysterau newydd hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn fwy parod ar gyfer llwybrau ôl-16 gwahanol, p'un a fyddant yn dewis addysg alwedigaethol neu gyffredinol, cyflogaeth neu hyfforddiant.



**Ymateb:** Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yw sefydliadau sy'n llywio buddsoddiad mewn sgiliau. Maent yn datblygu ymatebion yn seiliedig ar anghenion lleol a rhanbarthol. Dyfarnwyd cyllid ychwanegol i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn llunio canllawiau ar yrfaoedd i bobl ifanc. Mae'r canllawiau'n cynnwys manylion llwybrau i gael swydd yn eu dewis sector, fel peirianneg neu ddigidol. Mae rhai o'r dogfennau hyn hefyd yn cynnwys cysylltiadau â swyddi â blaenoriaeth mewn rhanbarthau penodol. Gall ysgolion, colegau a dysgwyr eu defnyddio i dywys pobl ifanc ar hyd eu dewis llwybr gyrfa.

**Ymateb:** Mae rhaglen Twf Swyddi Cymru+ yn cynnwys 'Paratoi', a elwid gynt yn Haf Hwylus. Mae Paratoi yn garreg camu i bobl ifanc nad ydynt yn barod i ddechrau rhaglen ddysgu i'w helpu i gyrraedd y nod. Mae'n cynnig cyfuniad o sesiynau dysgu un i un a sesiynau dysgu drwy weithgareddau tîm. Mae Paratoi yn cynnwys gweithgareddau meithrin tîm, iechyd meddwl a llesiant, gweithgareddau awyr agored a datrys problemau. Mae hefyd yn cynnig cyngor a chanllawiau ar bynciau fel rheoli arian a budd-daliadau. Nod y gweithgaredd newydd yw helpu pobl ifanc i fagu hyder a dysgu'r sgiliau bywyd sydd eu hangen arnynt i'w paratoi ar gyfer eu cam nesaf. Mae Paratoi yn disodli Haf Hwylus, felly er y bydd yn rhoi ffocws i bobl ifanc dros fisoedd yr haf, rydym wedi ei newid fel bod modd iddynt ddechrau'r rhan hon o'r rhaglen unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.

**Ymateb:** Mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn parhau i wella ei adnodd Canfod Cymorth. Mae'r adnodd hwn yn cynnwys cwblhau holiadur byr er mwyn helpu pobl ifanc i ganfod pa gymorth sydd ar gael i'w helpu i wella eu sgiliau a'u cyfleoedd am swyddi.

**Ymateb:** Mae'r Brifysgol Agored a sefydliadau addysg uwch ledled Cymru wedi parhau i ddatblygu'r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael ar Hwb Barod ar gyfer Prifysgol. Bwriedir i'r adnoddau gefnogi dysgwyr sy'n symud ymlaen i astudio mewn prifysgol. Caiff yr adnoddau eu diweddaru'n barhaus er budd carfanau presennol o ddysgwyr a rhai newydd.

Mae prifysgolion wedi cydweithio i gyhoeddi cyfres o bodlediadau dwyieithog, lle mae myfyrwyr presennol yn trafod amrywiaeth o bynciau, yn cynnwys pryderon am fywyd myfyrwyr ac arian. Maent hefyd yn trafod rhwystrau i wneud cais am le mewn prifysgol a phontio i addysg uwch. Maent hefyd wedi datblygu canllaw i rieni/gofalwyr, sy'n rhoi cyngor ar sut i gefnogi pobl ifanc drwy'r broses o wneud cais am le mewn prifysgol.

**Ymateb:** Mae rhaglen Syniadau Mawr Cymru yn darparu cymorth mewn ysgolion cynradd drwy'r Criw Mentrus, mewn ysgolion uwchradd drwy weithdai Modelau Rôl, ac mewn colegau a phrifysgolion lle mae'r staff yn cael eu cefnogi i gynnwys y rhaglen yn eu haddysgu.





**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio ar adnodd llwybrau newydd. Nod yr adnodd hwn yw helpu pobl ifanc, a'r rhai sy'n eu cefnogi, i ddeall y llwybrau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant sydd ar gael iddynt i'w helpu i wireddu eu potensial yn llawn. Bydd hefyd yn eu helpu i ddeall pa gymorth sydd ar gael i'w galluogi i ddilyn eu dewis lwybr. Mae'r Bwrdd Cynghori ar y Warant i Bobl Ifanc wrthi'n adolygu'r adnodd newydd hwn. Bwriedir iddo fod ar gael ar dudalen we Gwarant i Bobl Ifanc Cymru'n Gweithio yn ystod y gwanwyn eleni (2024).

## Cyfathrebu

Gwnaethoch ddweud wrthym nad ydych bob amser yn gwybod ble i gael yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Pan fyddwch yn cael gwybodaeth, bydd hynny gan ffynonellau gwahanol. At eich ysgol, coleg neu brifysgol y byddwch yn troi gyntaf fel arfer, ac at y cyfryngau cymdeithasol a'ch rheini wedi hynny. Gwnaethoch ddweud wrthym y byddai'n well gennych gael gwybodaeth gan Gyrfa Cymru, Llywodraeth Cymru neu'ch ysgol, coleg neu brifysgol yn y dyfodol.

**Ymateb.** Rydym wedi cryfhau ein hymgyrch codi ymwybyddiaeth ar gyfer y Warant i Bobl Ifanc (Bydd Bositif) er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod ble y gallant gael yr help a'r cyngor sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu hopsiynau ôl-16. Mae'r ffocws ar fideos byr ysbrydoledig, a fydd yn cael eu defnyddio ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Instagram a TikTok, a thrwy ymgyrchoedd ar y teledu a'r radio.



Yn ôl ffigurau mis Rhagfyr 2023, mae pobl wedi clicio, hoffi a rhannu ymgyrchoedd marchnata'r Warant i Bobl Ifanc mwy na 320,000 o weithiau.

**Ymateb:** Mae Gyrfa Cymru wedi cyhoeddi [tudalennau newydd i rieni] ar ei gwefan. Mae'r tudalennau hyn yn darparu gwybodaeth ac adnoddau er mwyn helpu rhieni a gofalwyr i gefnogi dysgu a phenderfyniadau eu plentyn o ran gyrfa.

**Ymateb:** Rydym wedi sefydlu rhwydwaith o bartneriaid i gefnogi a hyrwyddo'r Warant i Bobl Ifanc, sy'n cynnwys cydweithwyr mewn awdurdodau lleol sy'n arwain ar wasanaethau ieuenctid, cyflogaeth ac addysg, sefydliadau yn y trydydd sector, yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn ogystal â Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid sy'n cynnwys rhwydwaith ehangach o gysylltiadau. Mae pecyn cymorth cyfathrebu newydd wedi'i ddatblygu a'i rannu â nhw. Rydym hefyd wrthi'n cadarnhau pecyn adnoddau i athrawon a fideos astudiaethau achos newydd. Rydym wedi sefydlu rhwydwaith o bartneriaid i gefnogi a hyrwyddo'r Warant i Bobl Ifanc.

Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys cydweithwyr mewn awdurdodau lleol sy'n arwain ar wasanaethau ieuenctid, cyflogaeth ac addysg, sefydliadau yn y trydydd sector a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Rydym hefyd wedi sefydlu Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid. Mae'r grŵp yn cynnwys pobl o sefydliadau gwahanol sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Mae pecyn cymorth cyfathrebu newydd wedi'i ddatblygu a'i rannu â nhw. Rydym hefyd wrthi'n cadarnhau pecyn adnoddau i athrawon a fideos astudiaethau achos newydd.

**Ymateb:** Ym mis Ebrill 2023, gyda chymorth Plant yng Nghymru, gwnaethom sefydlu'r Bwrdd Cynghori ar y Warant i Bobl Ifanc. Diben y Bwrdd yw cynghori ar bolisïau newydd a helpu i'w llunio. Bydd yn helpu i nodi unrhyw faterion presennol a materion posibl yn y dyfodol, a mynd i'r afael â nhw. Mae'r Bwrdd bellach yn cynnwys hyd at 16 o aelodau. Hyd yma, mae'r Bwrdd wedi cynnal sesiynau gyda Trafnidiaeth Cymru, Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, cyfranogwyr Twf Swyddi Cymru+ a Phartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru, ymhlith eraill.

## Costau Byw

Drwy gydol y Sgwrs Genedlaethol, rydym bob amser wedi bod yn ymwybodol y gall cael gafael ar addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant arwain at oblygiadau ariannol i lawer o bobl. Gan gofio hynny, rydym wedi gweithio'n galed i ddarparu cymorth i gynifer o bobl ifanc â phosibl mewn ffyrdd gwahanol.

Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn teimlo nad oeddent yn barod ar gyfer yr agweddau ariannol ar addysg ôl-16 neu gyflogaeth. Ymateb: Mae pob un o'r rhaglenni cyflogadwyedd yn galluogi cyfranogwyr i gael cymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer rhwystrau fel costau teithio a chynhaliaeth. Mae'r cymorth hwn ar gael tra byddant yn ymgymryd â hyfforddiant, yn mynychu lleoliad profiad gwaith, neu'n mynd i gyfweliadau. Yn yr un modd, gellir ariannu costau gofal plant tra bydd unigolion yn ymgymryd â hyfforddiant a chaiff costau sefydlu hanfodol ar gyfer y rheini sy'n dechrau hunangyflogaeth hefyd eu hariannu.

**Ymateb:** Mae dysgwyr yn parhau i gael budd o newidiadau i'r cymorth sydd ar gael i'r rheini sy'n rhan o raglen Twf Swyddi Cymru+. Mae'r cymorth ychwanegol yn cynnwys lwfans hyfforddi uwch (a gafodd ei ddyblu i £60 ym mis Ebrill 2023), lwfans prydau am ddim, a chymorth teithio dros dro sy'n galluogi dysgwyr i adennill 100% o gostau teithio. At hynny, mae'r ystod oedran cymwys wedi'i ymestyn i 19 oed, gan alluogi mwy o bobl ifanc i gael budd uniongyrchol o'r cymorth sydd ar gael.

**Ymateb:** Mae Cymunedau Gwaith a Mwy yn cynnig cymorth cyfannol i unigolion. Mae hyn yn cynnwys atgyfeiriadau at wasanaethau





cyngor ar dai a dyledion, a banciau bwyd lleol. Gall y rhaglen ddarparu cyllid i gyfranogwyr ar gyfer gwariant hanfodol, a all gynnwys costau teithio i hyfforddiant neu leoliad profiad gwaith. Gall hefyd helpu yn ystod wythnosau cyntaf cyflogaeth. Gellir hefyd ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant, dillad gwaith a chostau hanfodol eraill. Mae hyn yn helpu i gefnogi'r unigolyn i gael cyflogaeth neu hyfforddiant. Gellir talu'r cyllid hwn ymlaen llaw ond bydd angen i unigolion ddarparu derbynebau ar gyfer y gwariant yr aed iddo.

**Ymateb:** Mae dysgwyr yn parhau i gael budd o Lwfans Cynhaliaeth Addysg uwch. Cafodd y lwfans ei gynyddu ym mis Ebrill 2023 o £30 yr wythnos i £40 yr wythnos ar gyfer dysgwyr cymwys mewn colegau addysg bellach a chweched dosbarth ysgolion.

**Ymateb:** Cafodd y cymorth cynhaliaeth a delir i fyfyrwyr addysg uwch llawn-amser a rhan-amser ei gynyddu 9.4% ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24.

**Ymateb:** Gall y Gronfa Ariannol Wrth Gefn helpu dysgwyr cymwys mewn colegau addysg bellach. Mae'r gronfa wedi'i hanelu at y rheini sy'n wynebu anawsterau ariannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn 6.5% ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24. Mae'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn wedi'i thargedu at ddysgwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol. Mae'n cynnig help i ddysgwyr cymwys na fyddent fel arall o bosibl yn gallu mynychu'r coleg. Gellir ei defnyddio ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â'r cwrs, fel costau plant, trafnidiaeth, prydau am ddim, cyfarpar a deunyddiau dysgu.

**Ymateb:** Mae £845,000 wedi'i ddyrannu i'r sector addysg bellach ym mlwyddyn ariannol 2023-24 er mwyn parhau i ddarparu nwyddau mislif am ddim mewn sefydliadau addysg bellach. Defnyddir y cyllid i gefnogi pawb yn y gymuned colegau y mae angen nwyddau mislif arnynt. Mae hyn yn sicrhau na fydd yr un dysgwr yn colli allan ar addysg yn y coleg am na all fforddio nwyddau mislif.



**Ymateb:** Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau wedi datblygu cyfres o ganllawiau defnyddiol.  Mae'r canllawiau wedi'u hanelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc agored i niwed. Byddant yn sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol yn deall y cymorth ariannol sydd ar gael. Gallant ymgorffori cyfleoedd i ddysgu mwy am arian yn y cymorth y maent yn ei ddarparu i blant a phobl ifanc. Y nod yw gwella eu llesiant ariannol drwy addysg ariannol o ansawdd da.
Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo'r canllawiau hyn i'n darparwyr hyfforddiant ac addysg. Drwy hyn, gallant gynnig cymorth a chyngor i'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw.

## Beth Nesaf?

**Beth fydd yn digwydd nesaf:**

Fel y nodwyd eisoes, ym mis Ebrill 2023, ar ôl cwblhau ymarferion y Sgwrs Genedlaethol a chyda chymorth Plant yng Nghymru, gwnaethom sefydlu'r Bwrdd Cynghori ar y Warant i Bobl Ifanc er mwyn cynghori ar bolisïau newydd a helpu i'w llunio, a rhagweld materion a mynd i'r afael â nhw. Mae'r Bwrdd bellach yn cynnwys hyd at 16 o aelodau, ond rydym yn parhau i groesawu aelodau newydd.

I gymryd rhan, cwblhewch ein ffurflen gofrestru https://forms.office.com/e/L0a1etADvf

I gael diweddariadau pellach ar y Warant i Bobl Ifanc a chynnydd ein gwaith, ewch i'n gwefan.